Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# UWCHGYNHADLEDD EITHRIADOL:

# YMATEB AR Y CYD I BRYDERON SY’N DOD I’R AMLWG



## 1. Cyflwyniad a Chefndir


Mae trefniadau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn hanfodol, er mwyn galluogi rheoleiddwyr a phartneriaid yn GIG Cymru i asesu pryderon a risgiau mewn perthynas â diogelwch cleifion ac ymateb iddynt yn effeithiol. Bydd yr ymateb hwn ar y cyd yn helpu i wella ein dealltwriaeth o risgiau a materion, ac yn ysgogi proses o wella systemau a gwasanaethau.

Mae'r trefniadau presennol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn cynnwys yr Uwchgynhadledd Gofal Iechyd a gynhelir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Cynhelir cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn er mwyn hwyluso trafodaeth rhwng cyrff archwilio, arolygu, rheoleiddio a gwella.

Ffocws yr Uwchgynhadledd ddwywaith y flwyddyn yw trafod a rhannu gwybodaeth am ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau ar lefel Byrddau Iechyd neu Ymddiriedolaethau, a nodi themâu a risgiau cenedlaethol. Yn dilyn yr Uwchgynhadledd, caiff llythyr ei anfon at Brif Weithredwr GIG Cymru, er mwyn rhoi crynodeb o'r themâu a'r pryderon cenedlaethol allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r trafodaethau.

Yn ystod 2021/22, cynhaliwyd gwaith cychwynnol i ddatblygu ffordd i reoleiddwyr gofal iechyd a chyrff gwella yng Nghymru gydweithio ac ymateb i bryderon sylweddol o ran diogelwch cleifion wrth iddynt godi. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth pan fydd risgiau a phryderon brys yn codi y tu allan i ddyddiadau'r Uwchgynhadledd ddwywaith y flwyddyn. Arweiniodd hyn at dreialu ‘Uwchgynhadledd Eithriadol’ i ddod â phartneriaid at ei gilydd yn gyflym i rannu a thriongli pryderon a risgiau penodol a chytuno ar gamau gweithredu cadarn a chlir.

Er mwyn datblygu hyn ymhellach a chynnwys y broses fel rhan o weithgareddau busnes craidd, cafodd un o'r pethau allweddol i'w gyflawni ei gynnwys yng Nghynllun Gweithredol AGIC ar gyfer 2022/23 ‘Datblygu uwchgynhadledd gofal iechyd i fynd i'r afael â materion a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg’. Mae hyn yn adeiladu ar y gwaith cychwynnol a wnaed yn 2021/22.



## 2. Diben yr Uwchgynhadledd Eithriadol

Diben yr Uwchgynhadledd Eithriadol yw darparu mecanwaith clir, er mwyn i aelodau'r Uwchgynhadledd Gofal Iechyd godi materion a risgiau sylweddol sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â diogelwch cleifion. Egwyddor graidd y gwaith hwn yw sicrhau y gall sefydliadau perthnasol rannu a thriongli gwybodaeth yn gyflym ac mewn modd amserol, er mwyn ymateb i bryderon o ran diogelwch cleifion.

Mae gan gyfarfodydd yr Uwchgynhadledd Eithriadol ffocws gwahanol iawn i'r Uwchgynadleddau ddwywaith y flwyddyn.

- Adolygiad cryno ôl-weithredol yw'r Uwchgynadleddau ddwywaith y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys arferion da a beth sydd wedi mynd yn dda, yn ogystal â risgiau a materion ym mhob Bwrdd Iechyd. Caiff y cyfarfodydd eu trefnu bob chwe mis ac maent yn cynnwys pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth yng Nghymru.

- Caiff y cyfarfodydd eithriadol eu sbarduno gan un o'r aelod sefydliadau, pan ddaw pryder penodol neu risg benodol i'r amlwg. Mae'r cyfarfodydd yn canolbwyntio ar rannu gwybodaeth a dealltwriaeth, ac ar y camau gweithredu i'w cymryd i liniaru risgiau, ymdrin â materion, cael sicrwydd a chefnogi gwelliant. Mae'r cyfarfodydd yn canolbwyntio ar faterion penodol (a all fod yn faterion lleol neu genedlaethol), a chânt eu sbarduno drwy broses sy'n seiliedig ar ddod i gysylltiad â risg i ddiogelwch cleifion - caiff y broses ei chynnwys yn adran pedwar isod.



## 3. Y Sefydliadau sy'n Cymryd Rhan

Yn unol â'r Uwchgynhadledd ddwywaith y flwyddyn, mae'r sefydliadau canlynol wedi ymrwymo i broses yr Uwchgynhadledd Eithriadol:

- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Llais Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Uned Gyflawni, GIG Cymru
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)
- Gwasanaeth Atal Twyll Cymru y GIG (NCFSW)
- Gwelliant Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Archwilio Cymru
- Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru – Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (WRPS – NWSSP)
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC)
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)
- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC)
- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
- Perfformiad GIG Cymru Llywodraeth Cymru

## 4. Proses yr Uwchgynhadledd Eithriadol

Gall sefydliad sbarduno'r broses os bydd yn dod yn ymwybodol o risgiau neu bryderon sylweddol sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â diogelwch cleifion. Rhaid bod tystiolaeth i gefnogi'r farn hon.

Y cam cyntaf yw cyflwyno ffurflen Uwchgynhadledd Eithriadol (Atodiad A) i AGIC drwy'r cyfeiriad e-bost cyffredinol ar gyfer y tîm Partneriaethau a Gwybodaeth yn AGIC agic.pim@llyw.cymru

Mae ffurflen yr Uwchgynhadledd Eithriadol yn cynnwys manylion pwnc posibl ar gyfer cyfarfod, sy'n cynnwys Sgôr ar gyfer Dod i Gysylltiad â Risg i Ddiogelwch Cleifion. Y trothwy ar gyfer symud ymlaen i'r cam nesaf yw sgôr risg gyffredinol o 15 neu fwy.

Bydd y penderfyniad o ran p'un a ddylid bwrw ati ag Uwchgynhadledd Eithriadol ai peidio yn cael ei wneud gan AGIC. Os bydd y mater yn un brys ac yn sensitif o ran amser, caiff yr Uwchgynhadledd ei galw ar unwaith. Os nad oes cymaint o frys, o fewn deg diwrnod gwaith o dderbyn y ffurflen, ar ôl ymgynghori â'r cynigiwr. Bydd pob aelod o'r Uwchgynhadledd Gofal Iechyd yn cael gwybod am y penderfyniad o fewn pum diwrnod gwaith a lle y bo'n ofynnol, caiff cyfarfod ei drefnu. AGIC fydd yn gyfrifol am y gwaith gweinyddu, am hwyluso'r broses ac am ddarparu'r ysgrifenyddiaeth.

Bydd pob aelod o'r Uwchgynhadledd Gofal Iechyd yn derbyn gwahoddiad, a ffurflen yr Uwchgynhadledd Eithriadol wedi'i chwblhau. Er mwyn sicrhau bod y cyfarfod yn canolbwyntio'n llwyr ar fater penodol, **dim ond os bydd cyswllt uniongyrchol â'r risg neu'r pryder y dylai sefydliadau anfon cynrychiolydd, a dylent gyfyngu'r wybodaeth a gyflwynir a'r drafodaeth i'r mater hwnnw**, yn unol â rolau a chyfrifoldebau'r sefydliad.

Gofynnir i sefydliadau sy'n derbyn y gwahoddiad i'r cyfarfod anfon unrhyw wybodaeth ategol berthnasol ymlaen llaw drwy Objective Connect (yn unol ag adran 5 - Diogelwch gwybodaeth).

Caiff y cyfarfod ei gadeirio gan AGIC, a bydd yn canolbwyntio ar feithrin dealltwriaeth a rennir o'r mater penodol neu'r risg benodol, ac yn trafod y camau gweithredu posibl y gall pob sefydliad eu rhoi ar waith er mwyn lliniaru'r risg a / neu fynd i'r afael â'r pryder.

Bydd crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd yn cael ei gynhyrchu gan AGIC, a fydd yn cynnwys y cynllun gweithredu y cytunwyd arno. Caiff hwn ei ddosbarthu i'r sefydliadau a gymerodd ran.

**Bydd y gwaith o fonitro'r cynllun gweithredu yn dibynnu ar natur a maint y pryder, a bydd y cyfarfod yn argymell a ddylai AGIC ei uwchgyfeirio ymhellach. Os bydd y mater yn benodol i'r sefydliad sy'n codi'r pryder, cyfrifoldeb y sefydliad hwnnw fydd monitro'r camau gweithredu. Mae hyn yn cynnwys darparu diweddariad ar gynnydd yng nghyfarfodydd yr uwchgynhadledd ddwywaith y flwyddyn.**

## 5. Diogelwch Gwybodaeth

Bydd y sefydliadau sy'n cymryd rhan yn parchu cyfrinachedd trafodaethau'r Uwchgynhadledd Eithriadol. Yn unol â'r broses ar gyfer yr Uwchgynadleddau dwywaith y flwyddyn, bydd y broses o drosglwyddo dogfennau electronig yn ddiogel rhwng y sefydliadau sy'n cymryd rhan yn cael ei rheoli gan AGIC gan ddefnyddio Objective Connect, sef porth rhannu ffeiliau diogel. Bydd yn ystyried y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a deddfwriaeth diogelu data arall y DU, ac yn cydymffurfio â nhw.

## Atodiad A - Ffurflen yr Uwchgynhadledd Eithriadol

Cyflwynwyd gan (enw, teitl swydd a sefydliad):
Dyddiad cyflwyno:

| **Mater a Awgrymir ar gyfer Uwchgynhadledd Eithriadol** |
|---|
| *Cofiwch gynnwys manylion y risgiau penodol i ddiogelwch cleifion a'r rhesymeg / beth sydd wedi sbarduno'r angen i gynnal cyfarfod uwchgynhadledd eithriadol (uchafswm o 500 o eiriau)* |

| **Sgôr ar gyfer Dod i Gysylltiad â Risg i Ddiogelwch Cleifion** |
|---|
| *Defnyddiwch y matrics sgorio risgiau i ddarparu'r wybodaeth ganlynol, a ddylai gynnwys y sail dros ddyrannu'r sgoriau tebygolrwydd / difrifoldeb (uchafswm o 500 o eiriau):*<br><br>Sgôr Gyffredinol o ran y Risg i Ddiogelwch Cleifion:<br><br>Sgôr tebygolrwydd y risg:<br><br>Sgôr difrifoldeb y risg: |

| Gwybodaeth Ategol Bellach |
| --- |
| *Defnyddiwch yr adran hon i gynnwys unrhyw wybodaeth ategol ychwanegol, sy'n ymwneud â'r pwnc penodol ar gyfer cyfarfod yr uwchgynhadledd eithriadol (uchafswm o 500 o eiriau)* |

## Sgôr ar gyfer Dod i Gysylltiad â Risg i Ddiogelwch Cleifion

### Risg: Tebygolrwydd

| Lefel | Disgrifydd | Disgrifiad |
|---|---|---|
| 5 | Bron yn Sicr | Yn debygol o ddigwydd ar sawl achlysur - mater parhaus |
| 4 | Tebygol | Fwy na thebyg y bydd yn digwydd ond nid yw'n fater parhaus |
| 3 | Posibl | Gall ddigwydd yn achlysurol |
| 2 | Annhebygol | Ni ddisgwylir iddo ddigwydd ond mae'n bosibl |
| 1 | Prin | Yn annhebygol o ddigwydd byth |

### Risg: Difrifoldeb

| Lefel | Disgrifydd | Yr Effaith Wirioneddol neu'r Effaith Bosibl ar Unigolyn/Unigolion |
|---|---|---|
| 5 | Trychinebus | Marwolaeth |
| 4 | Sylweddol | Anaf Parhaol |
| 3 | Cymedrol | Anaf / Niwed Lled-barhaol |
| 2 | Mân | Anaf / Niwed Tymor Byr |
| 1 | Dibwys | Dim Anaf na Chanlyniad Niweidiol |

**Sgôr Risg**

| Tebygolrwydd | Difrifoldeb | | | | | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1<br>Dibwys | 2<br>Mân | 3<br>Cymedrol | 4<br>Sylweddol | 5<br>Trychinebus | |
| 1. Prin | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | Dim camau gweithredu |
| 2. Annhebygol | 2 | 4 | 6 | 8 | 10 | Dim camau gweithredu |
| 3. Posibl | 3 | 6 | 9 | 12 | 15 | Uwchgynhadledd Eithriadol |
| 4. Tebygol | 4 | 8 | 12 | 16 | 20 | |
| 5. Bron yn Sicr | 5 | 10 | 15 | 20 | 25 | |